

## Datganiad newyddion

**Dyddiad:** 13 Mehefin 2018

**Teitl:** Adroddiad newydd yn dangos effaith arwyddocaol darparwyr addysg uwch ar gymunedau

#HEFCWcivic

Bydd adroddiad newydd a gyhoeddir heddiw'n dangos effaith darparwyr addysg uwch ar gymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Bydd *Torri Tir Newydd: Ar dir cyffredin* yn cael ei lansio gan CCAUC mewn dathliad o weithgareddau ymgysylltu cymdeithasol sefydliadau yn yr Eglwys Norwyaid, Caerdydd, am 18:00.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC, yn cyflwyno'r brif araith cyn i bawb sy'n bresennol glywed gan amrywiaeth o brifysgolion a phartneriaid, gan gynnwys y canlynol:

- David Allen, Cadeirydd **CCAUC**
- Louise Casella, **Y Brifysgol Agored yng Nghymru**
- Dylan Jones, **Fforwm Cymunedol Penparcau**
- Cathy Treadaway, **Prifysgol Metropolitan Caerdydd**
- Steph Mastoris, **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**
- Dave Horton, **Prosiect Treftadaeth CAER** | Ridwan Ahmed, **Porth Cymunedol Grangetown**
- Jane Davidson, **Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

Hefyd bydd arddangosfeydd – yn cynnwys robotiaid, arteffactau, cerddoriaeth a mwy – gan brifysgolion, Entrepreneuriaeth Ieuencid Busnes Cymru, ac Advance HE, sy'n hybu arferion proffesiynol mewn addysg uwch.

Mae'r cyhoeddiad yn cynnwys mwy na hanner cant o astudiaethau achos o ddarparwyr addysg uwch ac mae'n cynnwys meysydd amrywiol iawn, o ddarpariaeth iechyd a lles i fynediad lleol at y celfyddydau, diwylliant chwaraeon a threftadaeth; gweithgareddau gwella dyheadau; ac ymgysylltu â chymunedau ac ysgolion.

Dyweddodd Cadeirydd CCAUC, David Allen: "Mae CCAUC wedi cysylltu arloesi ag ymgysylltu erioed. Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu harddangos heddiw'n rhan o ddarpariaeth arloesol y sector. Mae prifysgolion a cholegau'n cael llawer mwy o ddylanwad ar ein bywydau ni o ddydd i ddydd nag y mae llawer yn ei sylweddoli.

"Mae prifysgolion yng Nghymru'n rhan ganolog mewn cymaint o ffyrdd o annog meddwl yn y tymor hir ac uno mwy ar bobl a chymunedau i weithio ar atal problemau yn y dyfodol."

Dyweddodd yr Athro Elizabeth Treasure, Is Ganghellor Prifysgol Aberystwyth: "Fel prifysgolion, mae gennym ni rôl bwysig i'w chwarae mewn gweithio gyda'n cymunedau a'n heconomiâu lleol, a chyfrannu at gymdeithas yn gyffredinol drwy effaith ein hymchwil a'n haddysg yn ogystal â chyflawniadau ein staff, ein myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr. Yn Aberystwyth, ein nod ni bob amser yw agor ein drysau nid yn unig i'r rhai sydd eisiau astudio cwrs gradd neu weithio gyda ni, ond hefyd y rhai sy'n byw yn y dref a'r ardal ehangach. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau diddorol, gan gynnwys dosbarthiadau dysgu creadigol yn ein Canolfan Gelfyddydau, dosbarthiadau ffitrwydd a lles yn ein Canolfan Chwaraeon dysgu gydol oes, a dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion. Mae ein blwyddyn o bartneriaeth gyda Fforwm Cymunedol Penparcau wedi bod

yn hynod ysbrydoledig ac rydyn ni'n gobeithio gweld rhagor o brosiectau o'r natur yma yn y dyfodol."

Dywedodd Steve Duffy o fudiad Gweithredu Cymunedol Grangetown, sy'n gweithio'n agos â phrosiect Porth Cymunedol Prifysgol Caerdydd yn Grangetown: "Doedden ni ddim yn sicr sut byddai'r Porth Cymunedol yn gweithio pan gafodd ei sefydlu i ddechrau ond mae wedi bod yn chwa o awyr iach. Mae wedi dod â llawer o bobl sydd eisoes yn gwneud pethau yn Grangetown at ei gilydd gyda phobl eraill sydd eisieu gweithredu; mae wedi helpu gyda ffocws ar wneud pethau'n iawn. Rydyn ni wedi gwneud defnydd o arbenigedd a chefnogaeth werthfawr, sy'n rhywbeth anodd ei gael i bobl sy'n gwneud gwaith gwirfoddol, gydag amser mor werthfawr. Mae'n ymarferol iawn yn ei hanfod – heb wastraffu amser ar ddamcaniaethu a chyfarfodydd diddiwedd – ac rydyn ni'n dechrau gweld manteision real a diriaethol. Mae wedi rhoi hwb cyfeillgar i gyfeiriad positif i Grangetown."

Dywedodd yr Athro Hywel Thomas, Dirprwy Is Ganghellor Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu ym Mhrifysgol Caerdydd: "Rydyn ni mor falch o fod yn brifysgol yng Nghymru ac mae'n bwysig ein bod ni'n dangos yr holl ffyrdd y gallwn ni fod o fudd i'n gwlad ni a'i phobl.

"O dalu'r Cyflog Byw i weithio gydag ysgolion i wella cyflawniad, o gynnwys ein cymunedau ni mewn ymchwil i addysgu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y dyfodol, rydyn ni'n gyfrannwr pwysig at lwyddiant Cymru."

Dywedodd Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru, Louise Casella: "Mae addysg uwch ran amser yn newid bywydau ac yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at economi Cymru. Fel yr unig brifysgol sy'n gweithredu ledled Cymru, rydyn ni'n falch o allu cynnig addysg uwch hyblyg, ran amser sy'n galluogi myfyrwyr i gynnwys astudio yn eu bywydau prysur.

“Mae symudedd cymdeithasol wrth galon y Brifysgol Agored ac rydyn ni’n cynnig cyfleoedd amrywiol i bobl astudio gyda ni, o’n cwricwlwm ffurfiol i’n dysgu ar-lein am ddim, ochr yn ochr â chefnogaeth benodol i fyfyrwyr mewn amgylcheddau diogel neu’r rhai ag anableddau neu gyfrifoldebau gofalu. Rydyn ni’n falch iawn o fod yn rhan o dirlun addysg uwch bywiog ac arloesol Cymru.”

Meddai Ceri Jones, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi Prifysgol Abertawe: “Mae cyhoeddiad Torri Tir Newydd yn gyfle anhygoel i ddangos yr holl brosiectau a mentrau rhagorol sy’n cael eu cynnal ledled Cymru. Mae cydweithio i gefnogi ein cymunedau lleol ni, sbarduno datblygiad economaidd a chymdeithasol ac ysbrydoli’r genhedlaeth nesaf yn rhywbeth rydyn ni i gyd yn angerddol iawn yn ei gylch, ac yn falch o’i weld yn disgleirio yn y cyhoeddiad hwn.”

Dywedodd yr Athro Julie Lydon, Is Ganghellor Prifysgol De Cymru: “Mae ein prifysgolion ni’n chwarae rhan hanfodol ym mywyd economaidd a dinesig ein cymunedau ni. Ym Mhrifysgol De Cymru rydyn ni’n gweithio ar draws rhanbarth De Ddwyrain Cymru i gyd, boed yn bartneriaeth gydag ysgolion lleol ar bob lefel o lywodraethwyr i fyfyrwyr, yn galluogi buddsoddiad technoleg mawr gan gwmnïau rhyngwladol fel Thales, gyda swyddi o ganlyniad, neu’n addysgu dinasyddion gweithredol sy’n chwarae rhan yn nyfodol ein cymdeithas ni.”

Dywedodd Dirprwy Is Ganghellor Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Yr Athro Claire Taylor: “Mae prifysgol fel ein un ni’n gymuned ynddi’i hun - ond rydyn ni’n gwybod ein bod ni’n rhan o gymuned ehangach, ranbarthol ac mae ein gwaith ni gydag ymgysylltu cymdeithasol yn adlewyrchu hyn.

“Mae ein staff a’r academyddion sydd yma wrth galon y prosiectau sy’n gwneud byd o wahaniaeth ar draws ein rhanbarth ni - ac yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid fel byrddau iechyd, awdurdodau lleol, ysgolion, a mwy.

“Nid dim ond prosiectau damcaniaethol ydi'r rhain - maen nhw'n gwneud gwahaniaeth real, diriaethol i fywydau pobl, o ddisgyblion unigol mewn ysgolion cynradd i drefi cyfan.

“Mae datblygu gweithio cydweithredol didwyll fel hyn – gyda rhai enghreifftiau wedi'u cynnwys yn adroddiad Torri Tir Newydd – Ar Dir Cyffredin - yn gwbl allweddol fel rhan o'n strategaeth ymgysylltu cymdeithasol ni.”

Dywedodd Dr Jane Davidson, Dirprwy Is-Ganghellor, Ymgysylltiad Allanol a Chynaliadwyedd:

“Gyda champysau ar draws De Orllewin Cymru, mae Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, sy'n cynnwys Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion fel colegau cyfansoddol, mewn sefyllfa dda i wneud effaith gymdeithasol ac economaidd gadarnhaol ar ei chymunedau.

“Fel sector, mae gan brifysgolion Cymru stori dda i'w dweud. Mae'r astudiaethau achos a gynhwysir yng nghyhoeddiad CCAUC "Torri Tir Newydd - Ar Dir Cyffredin" yn enghreifftiau rhagorol o'n gwaith. Mae'r Drindod Dewi Sant yn credu'n gryf yn ei genhadaeth ddinesig i greu cyfleoedd i fyfyrwyr, cymunedau a chwmnïau yng Nghymru i ddod at ei gilydd i wella sgiliau'r wlad a hyrwyddo meddwl cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

“Rydym wrth ein bodd bod 'Torri Tir Newydd' yn cynnwys gwaith y Brifysgol wrth greu cyfleoedd iechyd a lles newydd i blant a phobl hŷn; bod ein ffocws ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cymdeithasau yn cael ei gymeradwyo, bod budd cymdeithasol ac ariannol ein cydweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr heddlu, yn cael ei gydnabod a bod ein gwaith ar gyfer rhai o'r bobl fwyaf difreintiedig yma ac mewn gwledydd sy'n datblygu yn cael ei ddathlu.”

**Diwedd**

## **Cyswllt**

Emma Raczka, Uwch Reolwr Cyfathrebu, 029 2085 9667,

[emma.raczka@HEFCW.ac.uk](mailto:emma.raczka@HEFCW.ac.uk)

## **Nodiadau**

Mae'r adroddiad *Torri Tir Newydd: ar dir cyffredin* ar gael yn:

[www.hefcw.ac.uk/documents/publications/hefcw\\_reports\\_and\\_statistics/INNOVATION%20NATION%20-%20ON%20COMMON%20GROUND%20-%20FINAL%20CYMRAEG.pdf](http://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/hefcw_reports_and_statistics/INNOVATION%20NATION%20-%20ON%20COMMON%20GROUND%20-%20FINAL%20CYMRAEG.pdf)

Twitter: #HEFCWdinesig

## **Am CCAUC**

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru - CCAUC – yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch ac yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch a chraffu ar berfformiad prifysgolion. Rydym yn dosbarthu adnoddau ar gyfer addysgu ac ymchwil addysg uwch ac yn helpu i roi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch ar waith er lles cymdeithas yn ehangach ac er lles yr economi.